

---

*Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru (GPSI)* yw'r grŵp cynrychioliadol o swyddogion a enwebir gan bob awdurdod lleol fel pennaeth proffesiynol a strategol y gwasanaeth ieuencid. Mae gan y Grŵp rôl sefydledig wrth gynghori ar ddatblygiad strategol a darparu gwasanaethau ieuencid a mentrau cysylltiedig eraill ar ran *Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)* ac maent yn is-grŵp o'r strwythur ADEW. Mae gan y GPSI hefyd gysylltiad strategol â *Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)*.

Mae'r GPSI yn cydnabod pwysigrwydd continwrm dysgu a lles a'r cyfraniad pwysig y gall ac y mae gwaith ieuencid yn ei wneud tuag at wella canlyniadau i bobl ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 25 oed trwy alluogi *"...pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas ac i gyrraedd eu potensial llawn."* Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuencid.

Mae GPSI Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn i ran bwysig o'r sector addysg ond un a all, er gwaethaf cefnogi ac addysgu rhai o'r dysgwyr mwyaf ymddieithriedig a bregus, ddioddef o lefelau isel o fuddsoddiad a diffyg ffocws / cefnogaeth.

- 
1. Er mai ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol, mae EOTAS yn faes gwaith hanfodol i nifer o asiantaethau wrth sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cyrchu eu hawl i gael addysg o ansawdd da yn iawn a'u bod yn cyflawni hyd eithaf eu potensial. Er bod datblygiadau a thrafodaethau mwy diweddar ynghylch EOTAS wedi canolbwyntio ar rôl PRU's (sydd â threfniadau llywodraethu tebyg i ysgolion, gan gynnwys Pwyllgorau Rheoli ac sy'n gallu cofrestru disgyblion, na all y mwyafrif o ddarpariaethau EOTAS eraill ei wneud), byddai'r GPSI yn croesawu ffocws ar rôl a chyfraniad gwaith ieuencid yn hyn, y gellir ei danamcangyfrif yn hawdd. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn cynnig nifer o brosiectau addysg gan ddefnyddio dull Gwaith Ieuencid e.e. prosiectau pwrpasol sy'n gweithio mewn neu gydag ysgolion am ran o amser dysgwr i ddarpariaeth gwricwlaidd amgen sy'n cael ei rhedeg gan Waith Ieuencid, a allai weld dysgwr yn mynychu rhan amser neu amser llawn.
-

2. O dan Adran 123 *Deddf Dysgu a Sgiliau*, (2000), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol "ddarparu, sicrhau a chymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid" gydag *Ymestyn Hawl* (dogfen Cyfarwyddiadau a Chanllawiau gysylltiedig Llywodraeth Cymru (LIC)) yn amlinellu'n glir y rôl bwysig y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei chwarae yn y 'cynnig' hwn. Mae gwaith ieuenctid, yn ddull penodol o weithio sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc 11-25 oed yn seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol ac yn cyfrannu at nifer o agendâu yn ogystal ag addysg, megis Cyfiawnder Cymdeithasol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac ati.
3. Gwneir hyn yn aml trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau dysgu sy'n gweddu i anghenion dysgwr, y gallai ysgolion ei chael hi'n anodd eu darparu e.e. dysgu trwy brofiad (a gynigir gan y Gwasanaeth Ieuenctid mewn amryw o ffyrdd), sydd hefyd yn argymhelliad mewn Dyfodol Llwyddiannus, ar gyfer pob dysgwr. Mae Gwasanaethau Cymorth i Blant ac Ieuenctid yn darparu cefnogaeth 'lapiu o gwmpas' sy'n cyd-fynd yn agos â'r ddarpariaeth mewn ysgolion, gan gynorthwyo athrawon yn eu nod o gynhyrchu cyfranwyr cadarnhaol, cynhyrchiol i gymdeithas (ac aelodau llawn ohoni). Gyda **phlant a phobl ifanc yn treulio tua 85% o'u hamser deffro y tu allan i'r ysgol** (Yr Athro Tim Brighouse, *Education Without Failure*, Cyfnodolyn Digidol Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, 2008), mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu nid yn unig ystod eang o wasanaethau cefnogaeth gyffredinol ac arbenigol, ond hefyd, trwy ddull dysgu anffurfiol, **yn ddarpariaeth addysgol ynddo'i hun**, sy'n digwydd mewn ysgolion (e.e. fel rhan o'r ddarpariaeth ABCh) a chymunedau trwy waith prosiect a chefnogaeth arall.
4. Yn 2013 cynhaliodd yr *Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol* (NYA) [gomisiwn i rôl gwaith ieuenctid mewn addysg ffurfiol](http://www.nya.org.uk/resource/commission-youth-work-education-national-youth-agency/) <<http://www.nya.org.uk/resource/commission-youth-work-education-national-youth-agency/>>, dan gadeiryddiaeth Tim Loughton, AS. Yn ogystal ag amlinellu'r hyn y gall ac y mae gwaith ieuenctid yn ei gyfrannu mewn lleoliadau addysg ffurfiol, roedd canfyddiadau'r adroddiad yn honni bod gwaith ieuenctid "... yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau, y galluoedd a'r agweddau sy'n ofynnol (i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol)..." a "...gall gwaith ieuenctid da helpu i wella presenoldeb ac ymddygiad, hyrwyddo cyflawniad a gwella cysylltiadau cartref a chymuned."
5. Fel gwasanaeth ataliol effeithiol, mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at nifer o amcanion LIC, gan gynnwys addysg; tlodi; ymdrechion i gyflawni gofynion yr UNCRC; trosglwyddo i fod yn oedolyn; Teuluoedd yn Gyntaf; troseddwr ifanc a phontio o'r ddalfa; plant sy'n derbyn gofal; gofalwyr ifanc; pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac ati.
6. Fel rhan werthfawr o'r 'teulu' addysg, ers mis Ebrill 2017, fel proffesiwn â gradd gymwys gyda'i fframwaith Safonau Galwedigaethol a chymwysterau ei hun, bu'n ofynnol i weithwyr ieuenctid gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

(EWC), ochr yn ochr â, athrawon, staff darlithio a chefnogi mewn colegau Addysg Bellach a staff Dysgu yn Seiliedig ar Waith.

7. Mae adroddiad diweddar y Samariaid ar waharddiadau o ysgolion yng Nghymru <https://www.samaritans.org/wales/news/exclusion-school-major-inequality-factor-which-cannot-continue-be-overlooked-urges-samaritans-cymru/> yn nodi pryder y gall plant a phobl ifanc ymrwymo i “gylch o anghydraddoldeb a’r brys i fynd i’r afael â’r mater oherwydd ei gysylltiad â risg hunanladdiad”. Mae’r Gwasanaeth Ieuencid yn aml naill ai eisoes yn gweithio gydag a / neu yn ‘codi’ pobl ifanc sydd naill ai wedi cael eu gwahardd neu ‘ddadgofrestru’ a gallant fod yr unig wasanaeth y mae’r person ifanc yn ymgysylltu ag ef. Wrth gyflawni’r rôl gefnogol bwysig hon e.e. trwy’r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuencid (YEPF), lle mae pobl ifanc sydd naill ai wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael eu nodi ac yn cael cefnogaeth berthnasol i aros yn yr ysgol / dychwelyd iddi a / neu i chwalu’r rhwystrau sy’n atal presenoldeb yn yr ysgol, mae’r Gwasanaethau Ieuencid hefyd yn gyswllt pwysig rhwng ysgolion a chymunedau.
  8. Mae’r Gwasanaethau Ieuencid yn dioddef pwysau ychwanegol o ganlyniad i arferion ‘dadgofrestru’ mewn ysgolion, lle mae pobl ifanc yn cael eu gadael heb unrhyw ddarpariaeth addysg ffurfiol. Mae Gweithwyr Ieuencid yn dod fwyfwy ar draws unigolion o’r fath, naill ai fel rhan o’r broses Proffilio Asesu Bregusrwydd o dan yr YEPF, ar hap trwy waith ar y stryd a / neu ar lafar gwlad. Mae’r rhain yn aml yn bobl ifanc arbennig o agored i niwed a allai elwa o ddechrau o’r newydd mewn ysgol arall neu ddarpariaeth EOTAs eraill, ond nad ydynt efallai wedi dod i sylw’r awdurdod lleol.
  9. Mae Gweithwyr Ieuencid hefyd yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran y bobl ifanc ac yn eu brocera yn ôl i ddarpariaeth ffurfiol a / neu amgen berthnasol / briodol.
-